

E-bost cymeradwyo

Pan fyddwch yn cael e-bost cymeradwyo ar gyfer plentyn yn eich lleoliad, dylech fwrw golwg drosto i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn yr e-bost yn gywir h.y. yr oriau a drefnwyd, y dyddiad cychwyn a'r dyddiad terfyn. Os nad yw'r wybodaeth yn gywir, dylech anfon e-bost atom cyn gynted â phosibl er mwyn inni newid yr wybodaeth yn ein system. Bydd hyn yn sicrhau na fydd rhaid inni wneud newidiadau'n ddiweddarach, newidiadau a allai beri iddi fod yn ofynnol ichi adalu arian.

Ceisiadau i gael darpariaeth yn ystod gwyliau

Mae'r haf yn prysur agosáu ac rydym wedi dechrau cymeradwyo ceisiadau i gael darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf. Rydym yn cymeradwyo gwyliau fesul 'wythnos' yn hytrach na fesul 'plentyn', felly byddwch yn cael e-bost ar wahân ar gyfer pob wythnos o'r gwyliau sy'n rhestru pob plentyn y cafodd cyllid ei gymeradwyo ar ei gyfer yn ystod yr wythnos honno. Os na fyddwch wedi cael e-bost erbyn y dydd Gwener cyn dyddiad y gwyliau, nid oes cyllid yn ei le ar gyfer y plentyn hwnnw.

Dylech atgoffa'ch rhieni bod rhaid iddynt gyflwyno cais i gael darpariaeth yn ystod gwyliau os ydynt am gael gofal plant wedi'i ariannu yn ystod yr haf. Gall rhieni gael gafael ar eu ffurflen gwyliau drwy ddolen yn yr e-bost cymeradwyo gwreiddiol.

Sylwch fod rhieni'n cael lwfans gwyliau sy'n dibynnu ar yr adeg y maent yn ymuno â'r cynnig. Os nad yw rhieni'n sicr sawl wythnos o ddarpariaeth gwyliau y mae ganddynt hawl i'w cael, mae croeso iddynt gysylltu â ni drwy ffonio 01545 570881.

Hawlio taliadau

Mae nifer fawr o hawliadau hwyr yn dal i ddod i law. Er mwyn iddynt gael eu talu'n brydlon, gofynnwn i'r darparwyr fewngofnodi i'w cyfrif **o fewn pedwar diwrnod gwaith cyntaf** y mis hwnnw. Ni fyddwn yn prosesu unrhyw hawliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwnnw tan inni brosesu taliadau'r mis canlynol. Os na fydd unrhyw blant yn ymddangos yn eich ffurflen hawlio taliadau ar y 1af o'r mis, efallai nad yw hawliadau wedi'u creu eto. Mewngofnodwch i'ch cyfrif ar ôl i chi dderbyn e-bost i ddweud bod hawliadau nawr ar agor.

Gair i gall: I gadarnhau eich bod wedi cyflwyno'ch hawliadau, gallwch fewngofnodi i'ch tudalen hawlio taliadau eto ar ôl eu cyflwyno ac, os yw'r dudalen yn wag, byddwch yn gwybod eich bod wedi'u hawlio.

Cofnod presenoldeb

Rydym yn atgoffa'r holl ddarparwyr bod rhaid iddynt lenwi eu cofnod presenoldeb yn llwyr **erbyn diwedd pob mis**. Mae'n ofynnol inni gyflwyno'r data hyn i Lywodraeth Cymru bob mis, felly mae'n rhaid i'r darparwyr ddarparu'r wybodaeth yn brydlon.

Rydym wedi sylwi bod y rhan fwyaf o'r cofnodion presenoldeb yn union yr un fath â'r oriau a drefnwyd. Hoffem eich atgoffa nad yw'ch cofnod presenoldeb yn effeithio ar eich taliadau. Dull o gasglu data i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru a sicrhau bod rhieni wedi trefnu'r oriau cywir yw'r cofnod presenoldeb. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod yn cofnodi'r union oriau y mae pob plentyn wedi bod yn bresennol yn y lleoliad yn ystod yr wythnos berthnasol.

Gallwch lenwi'r cofnod presenoldeb bob dydd, bob wythnos neu bob mis. O ran y darparwyr hynny a fydd ar gau yn ystod gwyliau'r haf, gofynnwn ichi gwblhau eich cofnod presenoldeb erbyn diwrnod olaf y tymor.

Deunydd hyrwyddo

Os oes angen mwy o daflenni, posteri neu gwestiynau cyffredin i rieni arnoch ynghylch y Cynnig Gofal Plant, cysylltwch â'ch awdurdod lleol i drefnu iddynt gael eu hanfon atoch.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Cynnig Gofal Plant, mae croeso ichi cysylltu a ni.